

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y cyfarfod: 14 Rhagfyr 2023

Teitl: Cynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth gan y Cymunedau Iachach yn dilyn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2023

Cefndir:

Ystyriodd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion.

O fewn Cyngor Sir Ceredigion, mae diogelu a chymeradwyo safonau uchel o les anifeiliaid yn bennaf fel rhan o gefnogi'r diwydiant ffermio, ac i gefnogi'r rhai sy'n mwynhau cadw anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Mae'r awdurdod felly yn cefnogi ymgyrch yr RSPCA ar "roi anifeiliaid anwes fel gwobrau" drwy gynnig gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun ar y gwaharddiad arfaethedig ar roi anifeiliaid byw (e.e. pysgod aur, ac ati) fel gwobrau fel y nodir yn ymgyrch y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) 2021.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfle i wahardd "anifeiliaid anwes fel gwobrau" ar eiddo'r Cyngor, a thrwy hynny godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o les anifeiliaid sy'n ymwneud â rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau. Felly, o ystyried y ddeddfwriaeth bresennol, gall y Cyngor gyflwyno gwaharddiad drwy newid ei delerau ac amodau'r cytundebau i ddefnyddio eiddo'r Cyngor. Cefnogir yr adroddiad hwn gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio sy'n goruchwylio rheolaeth tir a chyfleusterau'r Cyngor.

Argymhelliad(au):

Yn dilyn trafodaeth, mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cyngor yn:

- cymeradwyo gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir y Cyngor.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Cynnal lefelau uchel o les anifeiliaid ledled Cyngor Sir Ceredigion drwy weithredu gwaharddiad ar yr arfer o roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir y Cyngor oherwydd y niwed posibl a achosir i'r anifeiliaid.

Cynghorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach